

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU 2019-21.

Mai 2020

## Argymhelliad cyffredinol

Rydym yn argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth y DU 2019-21, ar yr amod ei bod yn cael ei bodloni gan ymateb y Gweinidog i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## 1. Cyflwyniad

### Ein dull gweithredu

1. Ar 12 Chwefror 2020, cyflwynodd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU 2019-21.
2. Ar 25 Chwefror 2020, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a phennu 24 Ebrill 2020 fel dyddiad i adrodd arno.
3. Oherwydd yr amser a oedd ar gael i'r Pwyllgor ystyried y Memorandwm, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus cyfyngedig ar y cynigion. Cawsom dystiolaeth gan academyddion a chynrychiolwyr o'r sector amaethyddol. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfranwyr wedi'i chynnwys yn Atodiad A.



4. Oherwydd y pandemig Covid-19 a chanslo cyfarfodydd Pwyllgorau'r Senedd yn sgil hynny, nid oedd modd inni gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd i 14 Mai 2020.

### Cefndir deddfwriaethol a pholisi

5. Mewn sawl ystyr, mae'r Bil hwn yn debyg i Fil Amaethyddiaeth blaenorol y DU, Bil Amaethyddiaeth 2017-19, a gyflwynwyd i Senedd y DU ar 12 Medi 2018. O ganlyniad i'r etholiad cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019, ni wnaed unrhyw gynnydd pellach o ran y Bil hwnnw. Mae'r Pwyllgor hwn wedi ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â fersiwn flaenorol y Bil. Cyhoeddwyd ei adroddiad cyntaf ym mis Ionawr 2019. Adroddodd y Pwyllgor ar Femorandwm atodol ym mis Mehefin 2019.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr agweddau newydd ar Fil Amaethyddiaeth y DU 2019-21, neu'r agweddau hynny lle y codwyd pryderon gyda'r Pwyllgor nad ydynt eto wedi'u datrys.

## 2. Bil Amaethyddiaeth y DU a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm)

6. Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil Amaethyddiaeth 2019-21 i Senedd y DU ar 16 Ionawr 2020. Cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Senedd ar yr un diwrnod.

7. Mae Bil 2019-21 yn cynnwys darpariaethau i alluogi parhau â Thaliadau Uniongyrchol i ffermwyr yng Nghymru ar ôl 2020 a phwerau pellach i symleiddio a gwella'r system Taliadau Uniongyrchol. Pwerau trosiannol yw'r rhain, gyda chymal machlud ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn cael ei gyflwyno yn y Chweched Senedd.

8. Gofynnwyd am gydsyniad y Senedd ar gyfer nifer o gymalau'r Bil. Mae'r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn:

“ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU fel cyfrwng i alluogi Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu cymorth ariannol i ffermwyr yng Nghymru ar ôl 2020, ac i sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yng Nghymru ac ar draws y DU yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd rhai pwerau â chyfyngiad amser y mae'r Bil hwn

yn darparu ar eu cyfer yn cael eu defnyddio hyd nes y caiff Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.”

## Bil Amaethyddiaeth 2017-19

---

**9.** Nod Bil 2017-19 oedd darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Roedd Atodlen 3 i'r Bil hwnnw yn benodol berthnasol i Gymru ac yn amlinellu pwerau eang i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau i ffermwyr a rheolwyr tir ar ôl Brexit, i wneud newidiadau i gynlluniau cyfredol, i ddileu cynlluniau PAC yn raddol (dros gyfnod pontio o saith mlynedd) a rhoi cynlluniau newydd ar waith.

**10.** Y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol rhwng Bil 2017-19 a Bil 2019-21 mewn perthynas â Chymru yw bod y darpariaethau i Weinidogion Cymru gyflwyno cynlluniau amaethyddol newydd wedi cael eu dileu o Fil 2019-21.

## 3. Marchnadoedd bwyd ac amaethyddol (Rhan 2)

### Diogelwch bwyd

**11.** Mae cymal 17 y Bil yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno adroddiad gerbron Senedd y DU ar ddiogelwch bwyd y DU o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae'r darpariaethau'n nodi pum maes, ymhlith pethau eraill, y gall yr adroddiad eu cynnwys:

- argaeledd bwyd yn fyd-eang;
- ffynonellau cyflenwi bwyd;
- gwytnwch y gadwyn gyflenwi ar gyfer bwyd;
- gwariant cartrefi ar fwyd; a
- diogelwch bwyd a hyder defnyddwyr mewn bwyd.

**12.** Mae'r nodiadau esboniadol yn nodi bod yr adroddiad:

“... will provide a broad understanding of what food security is, the challenges and risks to UK food security in a global context, and our current assessment of the state of our food security to inform our policy thinking on the resilience and security of food supply.”

## Tystiolaeth gan gyfranwyr

---

- 13.** Croesawodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (FUW) a Chymdeithas Ffermwyr Tenant (TFA) Cymru y ffaith bod diogelwch bwyd wedi'i gynnwys yn y Bil. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ganddynt ynghylch amllder y gofyniad i adrodd. Dywedodd yr FUW na fyddai cylch adrodd pum mlynedd yn adlewyrchu'n ddigonol y risg o ran diogelwch bwyd i'r DU. Dywedodd Fforwm Organig Cymru y gallai pum mlynedd fod yn rhy hir yn enwedig drwy gyfnod pontio a allai fod yn heriol. Credai'r cyfranwyr y dylid cael gofyniad i adrodd yn flynyddol neu, bob dwy flynedd o leiaf.
- 14.** Croesawodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) Cymru y ffaith bod y darpariaethau adrodd hyn wedi'u cynnwys yn y Bil, ond pwysleisiodd y dylai Llywodraeth Cymru gael ei chynnwys:
- “in the methodology planning for the report so that Welsh (and other Devolved Administrations) are able to extrapolate their own data to inform future policy making in the individual jurisdictions that constitute the UK.”
- 15.** Dywedodd Fforwm Organig Cymru ac NFU Cymru fod y diffyg rhwymedigaeth ar Weinidogion i weithredu mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad ar ddiogelwch bwyd yn wendid.
- 16.** Awgrymodd TFA Cymru y dylai'r Bil gynnwys gofynion i Lywodraeth y DU nodi targedau diogelwch bwyd, mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig ac i adrodd ar a oeddent yn cael eu cyflawni.

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r ffaith bod diogelwch bwyd wedi'i gynnwys yn y Bil. Mae'r mater hwn yn berthnasol yn ystod y pandemig Covid-19 cyfredol. O ystyried hyn, credwn fod yn rhaid i'r Bil fynd ymhellach yn awr os yw am fod yn addas at y diben ac amddiffyn dinasyddion Cymru a'r DU.

Yn gyntaf, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod yn rhaid adlewyrchu anghenion Cymru yn y fethodoleg ar gyfer asesu diogelwch bwyd y DU. Credwn hefyd y dylai'r broses hon gael ei llywio drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, lle bo hynny'n bosibl. Byddem yn ddiolchgar i glywed barn y Gweinidog ar y mater hwn a'i gwahodd i ddarparu manylion ar sut y gellir cyflawni hyn.

Yn ail, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod amllder y gofyniad i gyflwyno adroddiad yn annigonol. Rhaid i'r adroddiad gael ei baratoi bob blwyddyn neu

bob dwy flynedd. Ymhellach, byddem yn croesawu barn y Gweinidog ynghylch a fyddai'n ddymunol ac yn ymarferol paratoi adroddiad sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch bwyd yng Nghymru ac a ellid gwneud hyn yn flynyddol.

Yn drydydd, dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraethau'r DU a Chymru gyhoeddi ymateb a chymryd camau, fel y bo'n briodol, mewn ymateb i'r adroddiad. Os na fydd diwygiad i weithredu hyn yn digwydd neu os na chytunir arno, byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn ymrwymo i gyhoeddi ymateb sy'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â Chymru.

Yn olaf, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod mecanwaith ar gael i'r Senedd ystyried a thrafod adroddiad diogelwch bwyd y DU fel y mae'n berthnasol i Gymru.

**Argymhelliad 1.** Rhaid adlewyrchu persbectif Cymru yn y fethodoleg ar gyfer asesu diogelwch bwyd y DU. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn cyfrannu at ddatblygu'r adroddiad diogelwch bwyd a sut y bydd barn cynhyrchwyr bwyd a rhanddeiliaid yn cael ei hadlewyrchu.

**Argymhelliad 2.** Mae'r amllder y gofynion adrodd ar faterion diogelwch bwyd a nodir yn y Bil yn annigonol. Rhaid paratoi a chyhoeddi'r adroddiad yn flynyddol neu bob dwy flynedd.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog egluro a yw'n credu y byddai'n ddymunol paratoi adroddiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch bwyd yng Nghymru er mwyn llywio datblygiad polisi bwyd.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Bil gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraethau'r DU a Chymru gyhoeddi ymateb i'r adroddiad diogelwch bwyd, a chymryd camau priodol mewn perthynas ag ef. Os na fydd diwygiad i weithredu hyn yn digwydd neu os na chytunir arno, dylai'r Gweinidog ymrwymo i gyhoeddi ymateb i unrhyw fater yn yr adroddiad sy'n ymwneud â Chymru a meysydd polisi datganoledig. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod gan y Senedd ddigon o gyfle i ystyried yr adroddiad ar ddiogelwch bwyd a'r ymateb iddo.

## 4. Tryloywder a thegwch yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth (Rhan 3)

### Ymrwymïadau delio teg i gynhyrchwyr amaethyddol ac eraill yn y gadwyn gyflenwi

**17.** Mae cymal 27 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol osod, drwy reoliadau, rwymedigaethau ar brynwyr busnes cynhyrchion amaethyddol mewn perthynas â chontractau a wnânt ar gyfer prynu cynhyrchion amaethyddol gan werthwyr cymwys. Gallai rhwymedigaethau gynnwys gofyniad i ddefnyddio contract ysgrifenedig neu i gynnwys telerau penodol mewn contract, er enghraifft ar bremymau neu ddidyniadau.

**18.** Mae'r nodiadau esboniadol yn nodi bod hyn wedi'i anelu at fynd i'r afael ag arferion masnachu annheg mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth. Mae'r rhain, meddai, yn codi oherwydd y gwahaniaeth rhwng cynhyrchwyr amaethyddol cynradd sy'n tueddu i fod yn fusnesau bach, unigol sy'n gweithredu heb gysylltiadau cryf rhyngddynt o gymharu â chyfranogwyr eraill ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi, sydd yn nodweddiadol yn fusnesau cyfunol iawn sy'n rheoli cyfrannau sylweddol o'r farchnad berthnasol.

### Tystiolaeth gan gyfranwyr

---

**19.** Croesawodd TFA Cymru y darpariaethau'n ymwneud â chasglu data gan y gallent fod yn sail ar gyfer trafodaeth fwy gwybodus rhwng ffermwyr, proseswyr, manwerthwyr a siopau gwasanaeth bwyd. Croesawodd FUW hefyd y darpariaethau mewn egwyddor ond pwysleisiwyd y dylent fod yn gymesur ac nad ydynt yn rhoi cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru o dan unrhyw anfantais. Rhybuddiodd y byddai angen dull cydlynol ledled y DU, o gofio bod cadwyni cyflenwi yn ymestyn ledled y DU, yr UE a thu hwnt.

**20.** Croesawodd NFU Cymru y darpariaethau ond rhybuddiodd fod y pwerau a nodir yn y cymalau yn ddewisol ac, yn hynny o beth:

"their effectiveness or otherwise, in addressing issues in the supply chain will depend in large part on the drafting, operation and enforcement of the secondary legislation."

**21.** Mynegodd TFA Cymru bryder nad oedd Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau canlyniad tebyg drwy ehangu rôl y Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser<sup>1</sup>. Ategwyd hyn gan FUW, a ddywedodd

“While Section 27 gives the Secretary of State welcome powers to impose written contracts or specific terms, the Bill might also be amended to extend the powers of the Groceries Adjudicator to cover all major operators along the whole supply chain.”

## Ein barn ni

Nodwn fod rhanddeiliaid wedi croesawu'r darpariaethau hyn mewn egwyddor ond y bydd y manylion ynghylch sut mae'r darpariaethau'n gweithredu'n ymarferol yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth.

Dywedodd y cyfranwyr wrthym am effaith bosibl y darpariaethau ar gynhyrchwyr bwyd yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog egluro pa asesiad y mae wedi'i wneud o hyn. Yn benodol, a ddylai busnesau nad ydynt yn cyrraedd trothwy penodol o drosiant gael eu heithrio rhag rhai gofynion mewn perthynas â chasglu data.

Roedd rhanddeiliaid yn poeni bod y Bil yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau, yn hytrach na mynnu eu bod yn cael eu gwneud. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi sut y mae'n rhagweld y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â Chymru.

Dylai'r Gweinidog nodi ei barn ar y potensial i ymestyn pwerau Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser mewn perthynas â'r mater hwn ac a oes unrhyw drafodaethau wedi digwydd gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog egluro i ba raddau y mae wedi asesu effaith y darpariaethau ar ddelio teg i gynhyrchwyr bwyd yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog hefyd egluro a yw wedi ystyried y dylai busnesau nad ydynt yn cyrraedd trothwy trosiant penodol gael eu heithrio o rai gofynion mewn perthynas â chasglu data.

---

<sup>1</sup> Cafodd y **Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser** ei sefydlu yn 2013 i orfodi'r **Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Groser** rhwng manwerthwyr bwyd a'u cyflenwyr uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ffermwyr yn cyflenwi archfarchnadoedd yn uniongyrchol. Felly nid ydynt yn dod o dan Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser ac ers ei sefydlu bu galwadau gan undebau ffermio i fynd i'r afael â thegwch yn y rhan hon o'r gadwyn gyflenwi mewn rhyw ffordd.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog egluro a yw'n fodlon bod y darpariaethau delio teg wedi'u cynnwys yn y Bil fel pŵer galluogi yn hytrach na dyletswydd.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan randdeiliaid ynghylch y potensial i ymestyn pwerau Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser mewn perthynas â delio'n deg â chynhyrchwyr amaethyddol.

## 5. Materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad (Rhan 4)

### Adnabod ac olrhain anifeiliaid

**22.** Mae Cymal 32 yn diwygio Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ('Deddf 2006') i alluogi'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) i reoli gwasanaeth newydd yn ymwneud â gwybodaeth, adnabod ac olrhain da byw aml-rywogaeth, o'r enw System Wybodaeth Da Byw.

**23.** Mae Cymal 32 hefyd yn ychwanegu adran newydd at Ddeddf 2006 sy'n caniatáu i fwrdd a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno gael swyddogaethau sy'n ymwneud â chasglu, rheoli ac argaeledd gwybodaeth am iechyd, symudiadau ac adnabod anifeiliaid. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn nodi bod y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth mewn sefyllfa ddelfrydol i allu cyflwyno'r rhaglen a'r gwasanaeth newydd, ond mae hefyd yn nodi bod aseinio'r swyddogaethau yn y modd hwn hefyd yn golygu y gallent gael eu haseinio i unrhyw fwrdd newydd a sefydlir o dan y Ddeddf heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol ychwanegol.

### Yr ardoll cig coch

**24.** Mae cymal 33, sy'n ymwneud â'r ardoll cig coch, yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban (fel y bo'n briodol) i sefydlu cynllun ar y cyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau ardoll ym Mhrydain Fawr ailddosbarthu ardoll rhyngddynt.

**25.** Ffi yw'r ardoll cig coch a delir gan bob cynhyrchwr neu gigyddwr yn y man lladd (neu'r man allforio byw). Caiff yr ardoll ei thalu i'r bwrdd ardollau perthnasol ym mhob gwlad i'w defnyddio ar gyfer marchnata a hybu cynhyrchion cig y wlad honno. Y wlad sy'n cigyddu sy'n pennu ardoll pa wlad fydd yn cael ei thalu. Telir yr ardoll yng Nghymru i Hybu Cig Cymru (HCC), a ariennir yn bennaf drwy'r ardoll.

Tystiolaeth gan gyfranwyr

---



**26.** Croesawodd cyfranwyr mewn egwyddor y darpariaethau sy'n ymwneud ag adnabod ac olrhain anifeiliaid. Fodd bynnag, nododd sawl un fod nifer sylweddol o anifeiliaid yn cael eu symud rhwng Cymru a Lloegr. O ganlyniad, bydd angen i atebion gael eu cyd-ddylunio a'u cytuno gan DEFRA a Llywodraeth Cymru. Bydd angen i'r System Gwybodaeth am Dda Byw newydd ledled y DU hefyd fod yn gydnaws â system adnabod da byw Llywodraeth Cymru, EIDCymru.

**27.** Mynegodd y cyfranwyr bryder hefyd nad yw'r AHDB, a nodwyd fel y corff i ddatblygu'r System Gwybodaeth am Dda Byw newydd, yn atebol i Lywodraeth Cymru mewn unrhyw ffordd. Pwysleisiodd yr FUW fod yr AHDB i bob pwrpas yn fwrdd ar gyfer Lloegr ac y byddai ganddo'r pŵer nid yn unig i gasglu data ond hefyd i benderfynu ar bolisi ym maes iechyd anifeiliad, olrhain ac adnabod anifeiliaid.

**28.** Cafwyd cefnogaeth unfrydol gan gyfranwyr i'r darpariaethau mewn perthynas â'r ardoll cig coch.

## Ein barn ni

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch diffyg atebolrwydd yr AHDB i Lywodraeth Cymru. Nid yw'n dderbyniol nad yw corff yn y DU, sy'n gweithredu mewn maes polisi datganoledig, yn atebol i Lywodraeth Cymru am yr agweddau hynny ar ei waith.

Credwn fod atebolrwydd yn allweddol i sicrhau bod gan ffermwyr hyder mewn unrhyw system newydd. Dylai'r Gweinidog egluro sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r bwch atebolrwydd hwn, p'un ai drwy welliant i Fil y DU neu mewn unrhyw fodd arall.

Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod yn rhaid i'r System Adnabod Da Byw newydd fod yn gydnaws â system EIDCymru Llywodraethau Cymru. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf yn hyn o beth a rhoi sicrwydd bod y materion hyn yn cael eu hystyried fel mater o drefn.

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r ardoll cig coch wedi'u dwyn ymlaen o Fil 2017-19. Rydym yn croesawu cynnwys y darpariaethau hyn fel cyfle i fynd i'r afael ag annhegwch hanesyddol.

Mewn ymateb i'n hadroddiad blaenorol, dywedodd y Gweinidog "nid wyf yn bwriadu defnyddio'r gwaith o ddiwygio'r system Ardoll Cig Coch i newid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gweithrediadau Hybu Cig Cymru." Rydym

yn ceisio sicrwydd pellach gan y Gweinidog na fydd yr arian newydd ychwanegol o'r ardoll cig coch yn cael ei ddefnyddio yn lle'r cyllid presennol.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog nodi ei safbwynt ar briodoldeb y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth fel y corff a nodwyd i arwain y System Gwybodaeth am Dda Byw newydd, a rhoi rhesymau dros y safbwynt hwnnw. Yn benodol, dylai'r Gweinidog esbonio'n fanwl sut yr eir i'r afael â'r problemau mewn perthynas â diffyg atebolrwydd y Bwrdd hwnnw i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei dealltwriaeth o sut y bydd y System Adnabod Da Byw newydd yn rhyngweithio ag EIDCymru a'r gwaith mae'n ei wneud i sicrhau bod y ddwy system yn gydnaws.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y bydd unrhyw gyllid newydd sy'n codi o'r ardoll cig coch yn cael ei ddefnyddio i ategu, yn hytrach na disodli cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Hybu Cig Cymru.

## 6. Safonau marchnata, cynhyrchion organig a dosbarthu carcasau (Rhan 5)

### Cynnyrch organig

**29.** Mae Cymal 36 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a, lle bo hynny'n berthnasol, Gweinidogion datganoledig, wneud darpariaethau newydd neu ddiwygio darpariaethau sy'n bodoli eisoes ynghylch ardystio organig, mewnforio ac allforio cynnyrch organig a gorfodi rheoliadau organig. Dyma adran newydd a ychwanegwyd ar gyfer Bil 2019-21.

**30.** Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn esbonio bod rheoliadau cyfredol ar gynnyrch organig yn dod yn gyfraith a gedwir gan yr UE ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, sef 31 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, dim ond pwerau cyfyngedig sydd ar gael i ddiwygio'r rheoliadau. Gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwygio rheolau, er enghraifft, i adlewyrchu safonau amgylcheddol y DU neu unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol.

### Tystiolaeth gan gyfranwyr

---

**31.** Dywedodd cynrychiolwyr y sector organig wrth y Pwyllgor nad ymgynghorwyd â hwy yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil. Fe wnaethant nodi, fodd bynnag, y bydd llawer o fanylion y darpariaethau yn cael eu cynnwys mewn

is-ddeddfwriaeth. Roeddent yn disgwyl mai bryd hynny y byddai'r ymgynghori â nhw yn digwydd.

**32.** Roedd cynrychiolwyr y sector organig hefyd yn poeni am gynnal cyfwerthedd neu gydymffurfio â rheoliadau organig newydd yr UE ar ôl diwedd y cyfnod pontio, sef 31 Rhagfyr 2020. Disgwylir i reoliadau newydd yr UE ddod i rym ar 1 Ionawr 2021 ac nid yw'n eglur sut y bydd rheoliadau'r DU yn y dyfodol yn rhyngweithio â'r rheoliadau hyn. Nododd Fforwm Organig Cymru:

“New EU organic regulation (848/2018) requires that third countries are compliant with EU Regulation via a trade agreement. Historically equivalence was acceptable.”

**33.** Dywedodd y cyfranwyr mai'r canlyniad a ffefrir ganddynt fyddai cytundeb masnach cynhwysfawr rhwng y DU a'r UE a oedd yn cynnwys cytundeb ar gyfwerthedd ar gyfer rheoliadau organig.

**34.** Roedd sawl cyfrannwr hefyd yn poeni am statws organig mewn unrhyw gytundeb masnach â gwledydd eraill yn y dyfodol, gan gynnwys UDA. Mynegwyd pryder y gallai cynnyrch sy'n cael ei fewnforio gael ei labelu fel cynnyrch organig ond eu bod yn ddarostyngedig i safonau gwahanol ac, mewn rhai achosion, safonau llai llym nag sydd yn y DU.

**35.** Dywedodd cynrychiolwyr y sector organig wrth y Pwyllgor y gallai gwahaniaethau mewn safonau a gofynion ar gyfer y diwydiant organig ar draws gwledydd y DU ychwanegu cymhlethdod i gynhyrchwyr yn y DU a mentro ystumio'r farchnad fewnol.

## Ein barn ni

Nodwn y sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y diffyg ymgynghori ar y darpariaethau yn y Bil. Byddem yn ddiolchgar i gael eglurhad gan y Gweinidog ynghylch i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o ddatblygu'r darpariaethau ar gynnyrch organig yn y Bil a sut maent yn adlewyrchu ei dyheadau ar gyfer y sector yng Nghymru.

Nodwn y pryderon a fynegwyd gan sawl rhanddeiliad ynghylch effaith rheoliadau organig yr UE yn y dyfodol ac a ellir dod i gytundeb ar gyfwerthedd. Dylai'r Gweinidog egluro ei safbwynt ar y mater hwn a rhoi diweddariad ar sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU.

Roedd sicrhau nad yw safonau organig presennol yn cael eu tanseilio gan gytundebau masnach yn y dyfodol yn fater arall yr oedd rhanddeiliaid yn

dymuno ei godi gyda ni ac rydym yn rhannu eu pryder. Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd yn ceisio sicrhau bod safonau organig yn cael eu cynnal ac a yw'r Bil, yn ei barn hi, yn rhoi digon o ddiogelwch yn hyn o beth.

Ymhellach, nodwn y sylwadau gan randdeiliaid ynghylch yr effaith bosibl ar farchnad fewnol y DU o wahaniaethau rhwng safonau ar gyfer cynnyrch organig. Dylai'r Gweinidog egluro ei safbwynt ar y mater hwn a nodi sut mae'n credu y gellir datblygu dull cydlynol. Un sy'n parchu hawliau'r gwledydd sy'n rhan o'r DU i ddatblygu polisïau mewn meysydd lle mae ganddynt gymhwysedd ond gan gynnal uniondeb marchnad fewnol y DU.

Yn olaf, rydym yn deall bod grŵp organig ar gyfer pedair gwlad yn y DU wedi'i sefydlu. Byddem yn ddiolchgar i gael rhagor o wybodaeth am y grŵp hwn, gan gynnwys ei ddiben a'i aelodaeth.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog nodi i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r darpariaethau ar gyfer y diwydiant organig sydd yn y Bil a sut y maent yn adlewyrchu ei dyheadau ar gyfer y sector yng Nghymru.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog nodi ei safbwynt ar gyfwerthedd neu gydymffurfiaeth â rheoliadau organig yr UE a rhoi diweddariad ar sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd yn ceisio sicrhau nad yw safonau organig presennol Cymru yn cael eu tanseilio gan gytundebau masnach yn y dyfodol. Dylai'r Gweinidog nodi a yw'r Bil yn rhoi digon o ddiogelwch yn hyn o beth.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog nodi a yw'n credu y dylid cynnal safonau organig cyffredin ledled y DU.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth bellach am gyfranogiad Llywodraeth Cymru yng ngrŵp organig y pedair gwlad, gan gynnwys ei bwrpas a'i aelodaeth. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar ei waith hyd yma.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Gweinidog egluro a yw'n credu bod angen diwygio'r Bil i gynnwys mesurau diogelwch i sicrhau nad yw safonau'r farchnad yng Nghymru yn cael eu tanseilio gan fewnforion mewn unrhyw drefniadau masnach yn y dyfodol. Ymhellach, dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

## 7. Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (Rhan 6)

**36.** Mae Rhan 6 yn ymwneud â chydymffurfiaeth â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (AoA). Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu yn derfynol ar ddsbarthiad cymorth ariannol ledled y DU; gosod terfynau gwariant ar gyfer y DU gyfan; gosod nenfydau unigol o gefnogaeth ar draws y gweinyddiaethau datganoledig; a chreu nenfydau gwahanol ar draws y gweinyddiaethau datganoledig.

**37.** Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau hyn yn faterion a gadwyd yn ôl ac, o'r herwydd, nid oes angen cydsyniad y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno ac mae ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2019-2120 yn nodi:

“Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag amaethyddiaeth ac yn ymwneud â gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn ddomestig.”

**38.** Yn ystod hynt Bil 2017-2019, cytunodd Llywodraethau Cymru a'r DU ar fecanwaith llywodraethu ar gyfer defnyddio pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol sydd wedi'u cynnwys yng nghymal Sefydliad Masnach y Byd, fel bod buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hystyried yn llawn. Cafodd y mecanwaith llywodraethu hwn ei godio yn y Cytundeb Dwyochrog Llywodraeth y DU a Chymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, ('y Cytundeb Dwyochrog').

**39.** Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil 2019-21 yn dweud y bydd y Cytundeb Dwyochrog:

“i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn cyflwyno rheoliadau o dan y pŵer hwn.”

Tystiolaeth gan gyfranwyr

---

**40.** Dywedodd y rhan fwyaf o gyfranwyr fod ganddynt amheuan sylweddol o hyd ynglŷn â'r darpariaethau yn y Bil. O ran NFU Cymru, roedd y Bil yn golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno cyfyngiadau artiffisial ar wariant amaethyddol yng Nghymru ac felly cyfyngu ar ddewisiadau polisi Cymru.

**41.** Amlygodd yr FUW nad oes unrhyw ofyniad i bennu lleiafswm gwariant o dan flychau Sefydliad Masnach y Byd. Gallai hyn arwain at wyro ledled y DU mewn dyraniadau ar gyfer amaethyddiaeth, gan achosi anghydbwysedd yn y farchnad. Credai y dylid mynd i'r afael â hyn drwy ddiwygio'r Bil i ganiatáu cyflwyno rheoliadau, yn dilyn ymgynghori a chytundeb rhwng pedair gwlad y DU, sy'n nodi trothwyion gwario uchaf ac isaf mewn perthynas â meysydd polisi penodol".

## Ein barn ni

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom gyfeirio at bryderon rhanddeiliaid ynghylch goblygiadau cymal Sefydliad Masnach y Byd a'i botensial i gyfyngu ar Lywodraeth Cymru mewn meysydd datganoledig. Dywedasom y dylid mynd i'r afael â hyn naill ai drwy ddiwygio Bil y DU neu, o leiaf, cytundeb ffurfiol, cyhoeddedig rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru.

Yn fuan wedi hynny, cytunwyd ar Gytundeb Dwyochrog gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Fodd bynnag, ni chawsom ein hargyhoeddi bryd hynny fod y Cytundeb yn ddigon cadarn i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried neu eu diogelu'n briodol. Ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth inni i newid ein meddyliau.

Mae'n dal yn wir mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd â'r gair olaf ar y rheoliadau drafft, ac yn y pen draw, Senedd y DU fydd yn penderfynu cymeradwyo'r rheoliadau. Rydym yn parhau i gredu bod hyn yn amhriodol, o ystyried y potensial i'r darpariaethau hyn gyfyngu ar Lywodraeth Cymru mewn maes allweddol o gymhwysedd datganoledig.

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch diwygio'r cymalau mewn perthynas â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth er mwyn cryfhau'r cytundeb dwyochrog.

**Argymhelliad 18.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae wedi'u cael gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch diwygio neu gryfhau'r cytundeb dwyochrog.

## 8. Tenantiaethau amaethyddol (Atodlen 3)

**42.** Mae Atodlen 3 yn darparu ar gyfer tenantiaethau amaethyddol. Ni chynhwyswyd tenantiaethau amaethyddol ym Mil 2017-19 ond roeddent yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf

2019. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gyhoeddus i'r ymgynghoriad eto.

**43.** Yn ei datganiad deddfwriaethol ar 16 Gorffennaf 2019, dywedodd y Prif Weinidog y byddai Bil Amaethyddiaeth Cymru, sydd i'w gyflwyno yn y Chwched Senedd, yn edrych ar faterion ehangach megis hawliau ffermwyr tenant.

**44.** Mae dau brif fath o denantiaeth amaethyddol:

- Tenantiaethau Deddf 1986 a lywodraethir gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (y rhai y cytunwyd arnynt cyn 1 Medi 1995); a
- Tenantiaethau Busnes Fferm a lywodraethir gan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (y rhai y cytunwyd arnynt ar ôl 1 Medi 1995).

**45.** Cyflwynwyd Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 ('Deddf 1986') i ddarparu mwy o ddiogelwch i denant ffermwyr. Yn gyffredinol, mae gan ddeiliadaeth tenantiaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1986 ddiogelwch deiliadaeth oes ac mae gan y rhai a roddwyd cyn 12 Gorffennaf 1984 hefyd hawliau olyniaeth statudol, pan fyddant farw neu pan fyddant yn ymddeol.

**46.** Cyflwynwyd Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 ('Deddf 1995') i ddarparu fframwaith symlach a mwy hyblyg i annog mwy o osodiadau eiddo amaethyddol. Mae Tenantiaethau Busnes Fferm yn darparu fframwaith hyblyg, gallant amrywio o ran hyd, ac nid oes ganddynt hawliau olyniaeth statudol.

**47.** Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn nodi bod nifer y tenantiaethau Deddf 1986 yn lleihau'n naturiol ac ar sail y tueddiadau presennol, ni fyddant yn rhan sylweddol o'r sector tenantiaid erbyn tua 2050. Mae'r rhan fwyaf o'r tir a fydd ar gael ar ôl i denantiaethau Deddf 1986 ddod i ben yn cael ei ailosod fel Tenantiaeth Busnes Fferm.

**48.** Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau tenantiaeth yn y Bil hwn yn ymwneud â Deddf 1986.

### Tystiolaeth gan gyfranwyr

---

**49.** Yn gyffredinol, mae cyfranwyr yn croesawu'r darpariaethau sydd â'r nod o ddiwygio tenantiaethau amaethyddol. Dywedodd TFA Cymru ei bod yn cefnogi'r holl newidiadau sy'n cael eu gwneud ond ei bod yn teimlo bod angen gwella rhai agweddau. Nododd TFA Cymru nifer o gynigion yn ei chyflwyniad ysgrifenedig i newidiadau gael eu gwneud i Fil y DU.

**50.** Nododd TFA Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion eang ar gyfer diwygio tenantiaeth ond dim ond rhai ohonynt sydd wedi'u cynnwys ym Mil y DU. Roedd pryder ymhlith y cyfranwyr nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad ac, o ganlyniad, roedd ei bwriadau ehangach ar gyfer diwygio tenantiaeth yn aneglur.

**51.** Dywedodd yr FUW wrth y Pwyllgor fod cyfle i gyflwyno Bil ar wahân i Gymru i ddelio â thenantiaethau amaethyddol. Roedd CLA Cymru yn cytuno, gan ychwanegu bod rhychwant y Bil cyfredol yn golygu bod trafodaeth fanwl angenrheidiol ynghylch tenantiaethau yn annhebygol o ddigwydd.

**52.** Nododd NFU Cymru y byddai'n rhaid aros i weld sut y byddai'r newidiadau yn y Bil yn rhyngweithio â Chynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit, sydd â phwyslais ar gyflenwi nwyddau cyhoeddus. Eglurodd:

“The tenanted sector is important to Welsh agriculture, and we do not want the Welsh Government to move forward with the implementation of new policies to replace the CAP, until the impacts on the tenanted sector are properly understood, and until it can guarantee full and equal Access to future support to farmers who do not own the land they farm.”

**53.** Pwysleisiodd y cyfranwyr y gall yn aml fod yn anodd i ffermwyr sy'n denantiaid gael caniatâd y landlord ar gyfer gwneud rhai mathau penodol o waith neu weithgareddau ar y fferm, sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn cynlluniau nwyddau cyhoeddus. Mae hyn oherwydd y gwrthdaro cynhenid rhwng effeithiau cynlluniau o'r fath a gofynion landlordiaid i gadw tir mewn cyflwr amaethyddol da.

**54.** Nododd TFA Cymru y bydd y darpariaethau a fydd yn caniatáu i denant wrthwynebu penderfyniad y landlord i wrthod cydsynio i ymrwymo i gynllun a gyflwynir o dan ddarpariaethau cymorth ariannol y Bil neu i wneud gwaith yn unol â rhwymedigaeth statudol ond yn berthnasol i denantiaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Roedd yn bryderus na fydd y darpariaethau hyn yn ymestyn i denantiaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995.

## Ein barn ni

Rydym yn falch bod ymgais wedi'i gwneud i fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â thenantiaethau amaethyddol. Roedd hyn ar goll o fersiwn 2017-19 y



Bil. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn arwain at sawl cwestiwn newydd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef.

Nodwn y sylwadau gan randdeiliaid bod y Bil yn cynnwys rhai o'r materion a oedd yn destun ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2019. Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, fel y gall rhanddeiliaid ddeall ei blaenoriaethau yn y maes polisi hwn yn well.

Yn ychwanegol at hyn, mae'n ymddangos bod diffyg eglurder ynghylch bwriadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thenantiaethau amaethyddol. Mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau y bydd y mater hwn yn cael sylw mewn Bil Amaethyddiaeth i Gymru yn y dyfodol, a fydd yn cael ei gyflwyno yn y Senedd nesaf. Fodd bynnag, dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gallai fod angen Bil penodol ar denantiaethau amaethyddol, oherwydd natur gymhleth y materion a'r risg na fyddant yn destun proses graffu briodol os cânt eu cynnwys mewn Bil sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn ei ystyr ehangach. Dylai'r Gweinidog ymateb i'r pwynt hwn.

Dylai'r Gweinidog hefyd egluro pam mae rhai agweddau ar ddiwygio tenantiaethau wedi'u blaenoriaethu dros eraill i'w cynnwys ym Mil y DU.

Yn olaf, byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn esbonio'r rhesymeg dros y darpariaethau ym Mil y DU sy'n berthnasol i ddaliadau Deddf 1986 ac nid daliadau Deddf 1995. Byddai'n ddefnyddiol deall barn y Gweinidog ynghylch a ddylid ymestyn y darpariaethau i gwmpasu daliadau Deddf 1995.

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar denantiaethau amaethyddol, a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2019.

**Argymhelliad 20.** Dylai'r Gweinidog ymateb i'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid bod tenantiaeth amaethyddol yn gofyn am ei Fil Senedd ei hun yn y dyfodol.

**Argymhelliad 21.** Dylai'r Gweinidog esbonio pam mae rhai agweddau ar ddiwygio tenantiaeth wedi'u blaenoriaethu dros eraill i'w cynnwys ym Mil y DU.

**Argymhelliad 22.** Dylai'r Gweinidog esbonio'r rhesymeg dros y darpariaethau ym Mil y DU sy'n berthnasol i ddaliadau Deddf 1986 ac nid daliadau Deddf 1995. Dylai'r Gweinidog nodi ei barn ynghylch a ddylid ymestyn y darpariaethau i gwmpasu daliadau Deddf 1995.

## 9. Darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru (Atodlen 5)

### Rhan 1 - Cymorth ariannol ar ôl i'r UE adael

**55.** Mae Rhan 1, Atodlen 5 yn darparu i Weinidogion Cymru barhau i wneud Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru o dan y Cynllun Taliadau Sylfaenol ar ôl 2020. Bydd y pwerau hyn yn dod i ben ar ddiwedd 2024.

#### Tystiolaeth gan gyfranwyr

---

**56.** Yn gyffredinol, roedd cyfranwyr yn croesawu'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i'r Cynllun Taliadau Sylfaenol. Pwysleisiodd sawl un yr angen i fod yn ofalus cyn newid o'r system gymorth hon i unrhyw gynlluniau olynol arfaethedig.

### Rhan 2 - Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol

**57.** Mae Rhan 2 o Atodlen 5 yn caniatáu i Weinidogion Cymru:

- wneud datganiad os ydynt o'r farn bod amodau eithriadol yn y farchnad;
- ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol os ydynt o'r farn bod amodau eithriadol yn y farchnad, sy'n gwarantu cymorth ariannol neu ymyrraeth; a
- addasu pwerau o dan ddeddfwriaeth wrth gefn yr UE sy'n darparu ar gyfer gweithredu ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer mecanweithiau storio preifat, mewn ymateb i amodau eithriadol yn y farchnad.

**58.** Mae amodau eithriadol yn y farchnad yn bodoli lle mae (neu lle mae bygythiad o) aflonyddwch difrifol mewn marchnadoedd amaethyddol, sydd, neu sy'n debygol o gael, effaith andwyol sylweddol ar gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru o ran y prisiau sydd ar gael ar gyfer eu cynnyrch.

#### Tystiolaeth gan gyfranwyr

---

**59.** Ailadroddodd TFA Cymru ei barn y dylai ffenomena amgylcheddol, fel llifogydd, gyfiawnhau arfer pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn marchnadoedd. Ni ddarperir ar gyfer hyn yn benodol yn y diffiniad o amodau eithriadol yn y farchnad sydd yn y Bil.

**60.** Mynegodd yr FUW bryder y gallai llywodraethau priodol yng Nghymru a Lloegr fabwysiadu safbwyntiau gwahanol ynghylch yr hyn a fyddai'n gyfystyr ag amodau eithriadol y farchnad ac, o ganlyniad, a oedd angen ymyrraeth. Gallai hyn o bosibl ystumio marchnad fewnol y DU. Awgrymodd yr FUW y gellid lliniaru hyn drwy ychwanegu gofyniad at y Bil i Weinidogion Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU weithio gyda'i gilydd o dan amgylchiadau o'r fath.

**61.** Awgrymodd TFA Cymru y dylid gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai'r darpariaethau'n berthnasol nid yn unig i anawsterau difrifol sy'n achosi amodau eithriadol yn y farchnad, ond hefyd i broblemau cronig neu hirdymor, fel clefyd endemig neu newidiadau strwythurol mewn marchnadoedd amaethyddol a allai ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr wneud addasiad sylweddol.

### Rhan 3 - Casglu a rhannu data

**62.** Mae Rhan 3 o Atodlen 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno gofynion newydd i'r rheini yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi. Mae'n nodi pwy all gael ei gwmpasu a'r dibenion y gellir prosesu gwybodaeth ar eu cyfer. Mae'r dibenion penodedig yn cynnwys: helpu ffermwyr a chynhyrchwyr i gynyddu cynhyrchiant; helpu cynhyrchwyr i reoli risg ac anwadalarwydd y farchnad; ac i gefnogi iechyd ac olrhain anifeiliaid a phlanhigion.

**63.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi, ar ffurf drafft, fanylion y wybodaeth y bydd angen ei darparu.

### Tystiolaeth gan gyfranwyr

---

**64.** Rhybuddiodd yr FUW y gallai dargyfeirio mewn gofynion casglu a rhannu data mewn gwahanol rannau o'r DU arwain at ystumio marchnad fewnol y DU drwy roi beichiau ychwanegol ar rai cynhyrchwyr. Awgrymodd y byddai angen i Weinidogion Cymru weithio'n agos gyda gweinyddiaethau eraill i sicrhau unffurfiaeth gymharol.

### Ein barn ni

Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-19, fe wnaethom gefnogi'r darpariaethau sy'n ymwneud ag ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol mewn egwyddor. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus bryd hynny nad oedd yn eglur sut y bwriadwyd i'r pwerau gweithredol helaeth hyn gael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd

i'r Gweinidog ddarparu enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r darpariaethau. Nid ydym eto wedi derbyn yr eglurhad hwn.

Fe wnaethom nodi hefyd ein bod yn disgwyl i arfer y pwerau hyn gael ei gwmpasu gan fframwaith cyffredin ar gyfer amaethyddiaeth. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.

Nodwn fod cynrychiolwyr y sector amaethyddol yn gefnogol ar y cyfan i'r pwerau ar gyfer casglu a rhannu data fel ffordd o wella tryloywder o fewn y gadwyn gyflenwi. Roedd y pwerau hyn hefyd yn nodwedd o Fil 2017-19. Yna, o ran Bil 2019-21, roedd rhanddeiliaid yn poeni bod y pwerau'n ddewisol ac, o'r herwydd, nid oedd unrhyw rwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i barhau i wneud yr hyn sy'n ofynnol o dan reoliadau'r UE. Fe wnaethom alw am eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio. Ni ddarparwyd unrhyw enghreifftiau hyd yma.

Rydym yn ail-bwysleisio'r pryderon a godwyd yn ein hadroddiad blaenorol am y goblygiadau ymarferol i ffermydd llai o fodloni gofynion i ddarparu gwybodaeth. Rhaid i ofynion y dyfodol beidio â bod yn rhy feichus i'r ffermwyr hyn.

Mae rhanddeiliaid wedi galw am gynnwys mesurau diogelwch yn y Bil i sicrhau nad yw safonau bwyd yn cael eu tanseilio gan fewnforion mewn unrhyw drefniadau masnach yn y dyfodol. Nodwn nad yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth o'r fath. Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw drafodaethau a gafwyd gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Yn ein hadroddiad blaenorol, fe wnaethom bwysleisio'r angen am gydweithrediad a chytundeb rhwng gwledydd y DU ar safonau iechyd anifeiliaid drwy fecanwaith rhynglywodraethol. Byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad gan y Gweinidog ar y cynnydd o ddatblygu fframweithiau cyffredin y DU yn y maes hwn.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor wedi galw am sefydlu mecanwaith rhynglywodraethol i sicrhau cytundeb hirdymor ar gyfer ariannu amaethyddiaeth ledled y DU. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau â llywodraethau eraill y DU ar y mater hwn.

**Argymhelliad 24.** Dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y bydd yn darparu is-ddeddfwriaeth i'r Pwyllgor sy'n deillio o'r Bil hwn yn y DU ar ffurf drafft a darparu digon o amser i'r Senedd graffu ar hyn.

**Argymhelliad 25.** Dylai'r Gweinidog nodi'r amgylchiadau lle mae'n rhagweld y byddai'r pwerau mewn perthynas ag ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol yn cael eu harfer. Ymhellach, dylai'r Gweinidog nodi pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd o dan amgylchiadau o'r fath. Dylai'r Gweinidog hefyd nodi a fydd y darpariaethau'n berthnasol nid yn unig i broblemau tymor byr, ond hefyd i broblemau tymor hwy sy'n effeithio ar farchnadoedd amaethyddol.

**Argymhelliad 26.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu fframweithiau cyffredin y DU mewn perthynas â safonau iechyd anifeiliaid.

**Argymhelliad 27.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod pryderon heb eu datrys o ran y darpariaethau yn y Bil ar gyfer adnabod ac olrhain anifeiliaid, tenantiaethau amaethyddol, a rheoleiddio cynhyrchion organig. Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl beth yw'r pryderon hynny a rhoi diweddariad ar y cynnydd wrth eu datrys.

**Argymhelliad 28.** Dylai'r Gweinidog egluro sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau eang a ddarperir i Weinidogion Cymru yn y Bil, gan gynnwys mewn perthynas â chasglu a rhannu data; ymyrraeth y farchnad; a safonau marchnata.

## Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
<b>26 Chwefror 2020</b>	<b>Haydn Evans,</b> Fforwm Organig Cymru <b>Roger Kerr,</b> Ffermwyr a Thyfwyr Organig <b>Christopher Stopes,</b> Ffermwyr a Thyfwyr Organig
<b>05 Mawrth 2020</b>	<b>Dr Nick Fenwick,</b> Undeb Amaethwyr Cymru <b>Nigel Hollett,</b> Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad <b>Huw Thomas,</b> Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr <b>George Dunn,</b> Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

## Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
<b>AB 01</b>	Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
<b>AB 02</b>	Fforwm Organig Cymru
<b>AB 03</b>	Undeb Amaethwyr Cymru
<b>AB 04</b>	Ffermwyr a Thyfwyr Organig
<b>AB 05</b>	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
<b>AB 06</b>	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
<b>AB 07</b>	Hybu Cig Cymru
<b>AB 08</b>	RSPB Cymru
<b>AB 09</b>	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
<b>AB 10</b>	Dr Ludivine Petetin, Yr Athro Jo Hunt, Yr Athro Ben Pontin, Dr Huw Pritchard – Prifysgol Caerdydd; Dr Mary Dobbs – Queen's University Belfast

### Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
AB 05a (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad)	13 Mawrth 2020